# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Pen-lan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 7 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-923-8

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6
3. Yr hyn a ganfuom ........ 8
   - Ansawdd profiad y claf ........ 9
   - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14
   - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21
4. Beth nesaf? ........ 23
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 24
   - Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 25
   - Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 26
   - Atodiad C – Cynllun gwella ........ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Pen-lan, 6 Stryd Pen-lan, Pwllheli, Gwynedd, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 7 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch a bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd ganddo amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd y cyfarpar a'r ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Roedd gan staff fynediad da at hyfforddiant a chefnogaeth gan dîm ehangach y practis.

Rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Cynllun yr ystafell ddadheintio
- Y broses gwaredu gwastraff
- Darpariaeth cyfarpar dadebru a chymorth cyntaf
- Hyfforddiant diogelu i rai aelodau staff

- Rhai agweddau ar gadw cofnodion

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Pen-lan yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pwllheli, Gwynedd. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy’n cynnwys dau ddeintydd, un nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant a derbynnydd.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod staff y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a chwrteisi gan dîm y practis. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gynigir gan y practis.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o wyth holiadur wedi'u cwblhau; cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion tymor hir yn y practis (a oedd wedi bod yn glaf gyda'r practis ers dros ddwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Gofynnom i gleifion yn yr holiaduron ddweud wrthym yn eu geiriau eu hunain eu barn am y practis deintyddol, gan gynnwys sut gallai wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu; roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "*Practis ardderchog. Staff da a chymwynasgar a gweithio'n dda mewn argyfwng"*
>
> *"Cymwynasgar a chyfeillgar iawn. Cefais fy ngweld mewn awr a hanner fel claf brys"*
>
> *"Nid wyf yn sicr y gallant wella'n fwy. Dim byd negyddol i'w ddweud"*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod gan y practis arlwy o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Eu diben oedd hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid ceg eu hunain.

Roedd arwyddion 'Dim ysmygu' yn cael eu harddangos drwy'r practis, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg[1].

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â hwy am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Roedd y staff i weld yn dîm bychan, cyfeillgar a gwelsom ryngweithio cwrtais a moesgar â chleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn credu'n ddieithriad eu bod wedi'u trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol, o glyw'r cleifion eraill.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pawb ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

O'r cleifion hynny a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt yn yr holiaduron fod cost eu triniaeth yn glir iddynt bob tro. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion hyn wrthym hefyd, er bod y gost yn glir iddynt, nad oeddent yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

[1] Cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd gwybodaeth am brisiau triniaeth cyffredinol ar gael ar ffurf arweinlyfr prisiau yn y man aros ac ar wefan y practis. Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth glir am brisiau penodol ynghylch cynlluniau triniaeth unigol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gwybod faint allai eu triniaeth gostio.

Rydym yn argymell diweddaru gwefan y practis er mwyn cynnwys cyfeiriad at y broses gwyno a manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Diweddaru gwefan y practis er mwyn cynnwys cyfeiriad at y broses gwyno a manylion cyswllt AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur, a oedd yn cynnwys cleifion oedd yn siarad Cymraeg a chleifion di-Gymraeg, wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Roedd pob aelod o staff yn y practis yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion am unrhyw oedi i'w hamserau apwyntiad a gwelsom bolisi gan y practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ar du allan yr adeilad ac wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, ar y wefan ac ar neges y peiriant ateb. Dywedodd bron tri chwarter o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol frys ganddynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y cleifion a gweld eu bod wedi cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a chafwyd caniatâd gan bob claf ynghylch triniaeth.

Cytunodd y cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod â chleifion.

### Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd dwy ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio gan y practis, a'r ddwy ohonynt ar y llawr daear.

Roedd toiledau ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear, ac roedd mynediad da at y rhain i bobl ag anghenion symudedd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder neu gŵyn yn cael ei harddangos yn y dderbynfa a'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Roedd posteri Gweithio i Wella[2] yn cael eu harddangos yn y man aros er mwyn hysbysu cleifion o'r broses i'w dilyn pe baent eisiau lleisio pryder ynghylch y gwasanaeth a gawsant o dan drefniadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cawsom wybod bod y practis yn derbyn ychydig iawn o gwynion ac yr ymdrinnir â hwy wrth eu gwraidd lle y bo'n briodol. Roedd cofnod o gwynion yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro ac ymdrin ag unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin yn y cwynion roeddent yn eu derbyn.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol pe bai angen.

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

Dywedodd oddeutu hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn ymwybodol a oedd y practis deintyddol wedi ceisio gofyn am eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yno, er enghraifft, drwy holiaduron i gleifion.

Canfuom fod arolygon boddhad cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd blwch sylwadau gyda chardiau sylwadau yn y man aros i alluogi cleifion i fynegi eu barn ar y gwasanaeth.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd adeilad y practis yn amlwg yn cael ei gynnal mewn cyflwr da, y tu mewn a'r tu allan.

Arddangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau deintyddol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhywfaint o waith i wella'r mesurau rheoli heintiau yn yr ystafell ddadheintio.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Nid oedd profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol wedi cael eu cynnal yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.[3]

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchwyd gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus/clinigol yn cael ei storio'n ddiogel mewn man caeedig wrth aros i gael ei gasglu gan gwmni'r contractwr. Gwnaethom gynghori canfod bin lliw melyn er mwyn storio gwastraff peryglus/clinigol.

Roedd biniau offer miniog yn cael eu cadw ar y llawr. Dylai'r rhain gael eu rhoi ar y wal er mwyn lleihau'r risg o anaf i staff a chleifion.

Rydym yn argymell darparu biniau gwaredu gwastraff glanweithiol yn y toiledau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol gael eu cynnal yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Dylai'r biniau offer miniog gael eu rhoi ar y wal er mwyn lleihau'r risg o anaf i staff a chleifion.

Dylai biniau gwaredu gwastraff glanweithiol gael eu darparu yn y toiledau.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio bwrpasol. Fodd bynnag, nid oedd hon yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[4] Canfuom y gallai lleoliad y ffan echdynnu arwain at aer halogedig yn cael ei dynnu o ochr budr yr ystafell ddadheintio i'r ochr glân. I unioni hyn, gwnaethom awgrymu symud yr

[3] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm

[4] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

awtoclaf i ochr lân yr ystafell ac adleoli'r cyfarpar uwchsonig i fan y tu hwnt i'r sinciau a symud y chwyddhadur goleuedig i leoliad blaenorol yr awtoclaf.

Gwnaethom sylwi ar ardal o baent yn pilio ar y wal ger yr ardal osod lân ac argymell gosod sblasgefn addas ar y wal i leihau'r risg o halogi a chroes-heintio.

Nodom hefyd fod angen biniau gwastraff clinigol a weithredir â'r droed yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth.

Roedd yn amlwg bod yr offer a'r cabinetau yn yr ystafell ddadheintio mewn cyflwr da.

Roedd arwynebau gwaith yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf a chywasgwr, a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o wiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y cywasgwr.

Gwelsom dystysgrifau'n dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu stori'n briodol i atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau yr oedd angen defnyddio neu ailbrosesu offer yn eu herbyn (glanhau a sterileiddio) wedi'u cofnodi yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Ionawr 2018 gan ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru,[5] er mwyn nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gweithgarwch monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Canfuom fod y pecyn gollyngiadau mercwri wedi dyddio.

---

[5]Sefydliad yw Deoniaeth Cymru sy'n gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, gan ddarparu cyfleusterau addysgol ym maes meddygaeth a deintyddiaeth ac arwain ar ymchwil addysg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r llif yn yr ystafell ddadheintio gael ei adolygu a dylai ystyriaeth gael ei rhoi i symud yr awtoclaf i ochr lân yr ystafell, symud y cyfarpar uwchsonig i ardal y tu hwnt i'r sinciau a symud y chwyddhadur goleuedig i leoliad blaenorol yr awtoclaf.

Dylai sblasgefn addas gael ei osod ar y wal gyfagos â'r ardal osod lân yn yr ystafell ddadheintio er mwyn lleihau'r risg o halogi a chroes-heintio.

Dylai biniau gwastraff clinigol a weithredir â'r droed gael eu darparu yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth.

Dylai cofnodion dyddiol gael eu cadw o wiriadau dyddiol ar y cywasgwr.

Dylai'r pecyn gollyngiadau mercwri gael ei ddisodli.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau argyfwng wedi'u gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben. Fodd bynnag, gwelsom fod y nodwyddau a'r chwistrellau a ddefnyddir i weinyddu adrenalin y tu hwnt i'w dyddiadau defnyddio.

Canfuom nad oedd bag Ambu pediatrig, mygydau wyneb clir meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 nag offer llwybr anadlu maint 0 yn y pecyn dadebru. Canfuom hefyd fod yr offer llwybr anadlu meintiau 1 a 2 y tu hwnt i'w dyddiadau defnyddio. Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd a'r derbynnydd at hyn a gymerodd gamau gweithredu i archebu'r cyfarpar. Darparwyd copi inni o'r cadarnhad archebu fel tystiolaeth eu bod wedi'u harchebu.

Gwelsom fod peth cynnwys y pecyn cymorth cyntaf wedi dyddio.

Dylai rhestr wirio gael ei llunio er mwyn sicrhau bod y cyfarpar dadebru a chymorth cyntaf yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â safonau Cyngor Dadebru'r DU.

Llwyddom i weld cofnodion a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid disodli'r nodwyddau a'r chwistrellau i weinyddu adrenalin.

Rhaid disodli cynnwys y pecyn cymorth cyntaf sydd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio.

Dylai rhestr wirio gael ei llunio ar gyfer y cyfarpar dadebru a chymorth cyntaf i sicrhau eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy’n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Cawsom wybod bod hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer yr aelodau staff oedd yn weddill.

Roedd gan y practis bolisi ar waith i nodi'n fanwl y camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, petai gan y staff unrhyw bryderon diogelu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n briodol i'w rolau.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio’r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio'r staff perthnasol yn gyfredol a'u bod yn bodloni canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Er hwylustod i gyfeirio atynt, argymhellom fod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel a'u cynnal a chadw yn cael eu storio yn y Ffeil Amddiffyn rhag Ymbelydredd.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau o'r ystafelloedd triniaeth a chael adborth cleifion er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd archwiliadau o adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn defnyddio dulliau hunanwerthuso fel archwiliadau ac asesiadau o anghenion hyfforddi i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maen nhw'n gweithio ac i ystyried gwelliannau i'r ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn meysydd amrywiol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Cafodd cofnodion cleifion eu storio a'u cynnal ar bapur. Roedd rhai cofnodion staff yn cael eu cynnal yn electronig. Gwelsom fod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth papur ac ar gyfrifiaduron.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gweld bod cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch hanes meddygol; trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau a buddion; a sut y cafwyd caniatâd cleifion. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

Gwnaethom drafod yr angen i'r holl ddelweddau pelydr-X gael eu harchwilio, eu graddio a'u bod yn cael eu hadrodd arnynt, gyda chyfiawnhad clir am dynnu delweddau pelydr-X yn cael ei nodi yn nodiadau'r cleifion.

Gwnaethom hefyd drafod yr angen i gynnal siart archwiliadau peridontol chwe phwynt lle y bo'n briodol a chofnodi'r canlyniadau yn nodiadau'r cleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r holl ddelweddau pelydr-X gael eu harchwilio, eu graddio a'u bod yn cael eu hadrodd arnynt, gyda chyfiawnhad clir am dynnu delweddau pelydr-X yn cael ei nodi yn nodiadau'r cleifion.

Dylai siart archwiliadau peridontol chwe phwynt gael ei chynnal, lle y bo'n briodol, a chofnodi canlyniadau yn nodiadau'r cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cael ei reoli gan y prif ddeintydd gyda chymorth y derbynnydd. Gwelsom fod arlwy o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-aelodau o staff a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Pen-lan yn cael ei reoli gan y prif ddeintydd, gyda chefnogaeth y derbynnydd. Gwelsom fod y tîm yn drefnus ac yn rhagweithiol yn ei ymagwedd at reoli'r practis. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd tîm y practis barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm a digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion manwl yn cael eu llunio.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith ac yr ymgymerir â gwiriadau cefndir cyn i weithwyr ddechrau yn eu swyddi.

Roedd cofnodion yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn wythnosol, a defnyddiwyd y rhain i drafod digwyddiadau arwyddocaol ac i nodi unrhyw anghenion dysgu.

Dywedwyd wrthym fod staff yn cael cymorth a goruchwyliaeth anffurfiol ddyddiol ac arfarniadau ffurfiol blynyddol.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos, fel sy'n ofynnol gan reoliadau deintyddiaeth breifat.

Gwelsom hefyd wiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol' ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Canfuom nad oedd bag hunan-chwyddo pediatrig (bag Ambu) ac nad oedd unrhyw fygydau wyneb clir meintiau 0, 1, 2, 3 a 4 i gyd-fynd â'r bag Ambu yn y pecyn dadebru. Hefyd, nid oedd offer llwybr anadlu maint 0 yn y bag dadebru ac roedd yr offer llwybr anadlu meintiau 1 a 2 wedi dyddio. | Roedd hyn yn golygu bod mwy o berygl niwed i gleifion mewn argyfwng. | Tynnwyd sylw'r prif ddeintydd a'r derbynnydd at hyn. | Gwnaeth y derbynnydd archebu bag Ambu, mygydau ac offer llwybr anadlu. Darparwyd copi inni o'r cadarnhad archebu fel tystiolaeth eu bod wedi'u harchebu. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Pen-lan

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd angen cynllun gwella dybryd. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Pen-lan

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Gwnaethom argymell diweddaru gwefan y practis er mwyn cynnwys cyfeiriad at y broses gwyno a manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (4) (a) a (b)<br><br>4.2 Gwybodaeth i gleifion | Dylai gwybodaeth i gleifion gael ei chynnwys ar y wefan am bolisïau cwyno (preifat a'r GIG) y practis a dylai gwybodaeth am AGIC fod ar gael. | LMC | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol gael eu cynnal yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1)(d)<br>2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Trydanwr y practis i gynnal profion dyfeisiadau cludadwy. | EVG / LMC | Yn ystod y 12 mis nesaf |
| Dylai'r biniau offer miniog gael eu rhoi ar y wal er mwyn lleihau'r risg o anaf i staff a chleifion. | | Mae offer rhoi'r biniau offer miniog ar y wal wedi cael eu derbyn oddi wrth Canon a'u defnyddio. | EVG | Cwblhawyd |
| Dylai biniau gwaredu gwastraff glanweithiol addas gael eu darparu yn y toiledau. | | Trafod opsiynau gwaredu gwastraff glanweithiol gyda Canon, ein cwmni gwaredu gwastraff. | LMC | Pedair wythnos |
| Dylai'r llif yn yr ystafell ddadheintio gael ei adolygu a dylai ystyriaeth gael ei rhoi i symud yr awtoclaf i ochr lân yr ystafell, y cyfarpar uwchsonig i fan y tu hwnt i'r sinciau a symud y chwyddhadur goleuedig i leoliad blaenorol yr awtoclaf. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (d), (3) (b) a (4)<br>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Archwilio dull addas o ddraenio'r awtoclaf, ar ôl iddo gael ei symud i ochr lân yr ystafell.<br>Dylid symud yr holl eitemau eraill yn yr ystafell ddadheintio. | EVG | Pedair wythnos |
| Dylai sblasgefn addas gael ei osod ar y wal gyfagos â'r fan osod lân yn yr ystafell ddadheintio er mwyn lleihau'r risg o halogi a | | Cysylltu ag adeiladwr i gael dyfynbris am y sblasgefn. | EVG / LMC | Pedair wythnos |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| chroes-heintio. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Gosod sblasgefn. | | |
| Dylai biniau gwastraff clinigol a weithredir â'r droed gael eu darparu yn yr ystafell ddadheintio a'r ystafelloedd triniaeth. | | Cysylltu â Canon Parthed: biniau gwastraff clinigol a weithredir â'r droed/chwilio ar y rhyngrwyd<br>Prynu biniau gwastraff clinigol a weithredir â'r droed. | EVG / LMC | Pedair wythnos |
| Dylai tystiolaeth ysgrifenedig gael ei chadw o wiriadau dyddiol ar y cywasgwr. | | Llunio rhestr wirio ddyddiol o'r cywasgwr.<br>Cynnal gwiriadau yn ddyddiol/wythnosol. | LMC | Ar unwaith |
| Dylai'r pecyn gollyngiadau mercwri gael ei ddisodli. | | Archebu pecyn gollyngiadau mercwri i ddisodli'r pecyn presennol. | EVG | Pedair wythnos |
| Rhaid i'r nodwyddau a'r chwistrellau a ddefnyddir i weinyddu adrenalin gael eu disodli. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (2) a (3) (b)<br><br>2.6 Rheoli meddyginiaeth | Rhaid prynu nodwyddau a chwistrellau. | EVG | Cwblhawyd<br>Prynwyd nodwyddau a chwistrellau. |
| Rhaid disodli cynnwys y pecyn cymorth cyntaf sydd y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio. | | Dylai unrhyw eitem sydd y tu hwnt i'w dyddiad defnyddio gael ei nodi a'i disodli. | JJ/LS/LG | Cwblhawyd<br>Mae'r eitemau wedi |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | au | | | cael eu prynu. |
| Dylai rhestr wirio gael ei llunio ar gyfer y cyfarpar dadebru a chymorth cyntaf i sicrhau eu bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd. | | Llunio rhestr wirio o'r cyfarpar dadebru brys.<br><br>Llunio rhestr wirio o'r cyfarpar cymorth cyntaf. | JJ/LS/LG | Mae'r ddwy restr wirio wedi cael eu llunio ac maent yn cael eu defnyddio. |
| Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu ar y lefel sy'n briodol i'w rolau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (1) (b), (d) ac 14 (2)<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Parhau i wirio rhestr gyrsiau Deoniaeth Cymru ar gyfer cyrsiau diogelu sydd ar y gweill. | LMC / EVG | Yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 4.3.3, 8.5<br><br>2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | | | |
| Rhaid i'r holl ddelweddau pelydr-X gael eu harchwilio, eu graddio a'u bod yn cael eu hadrodd arnynt, gyda chyfiawnhad clir am dynnu delweddau pelydr-X yn cael ei nodi yn nodiadau'r cleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1) (b) | Llunio taflenni archwilio.<br><br>Cynnal arolygiadau cleifion ddwywaith y flwyddyn. | LG / LS / EVG | Wedi'i wneud |
| Dylai siart archwiliadau peridontol chwe phwynt gael ei chynnal, lle y bo'n briodol, a chofnodi canlyniadau yn nodiadau'r cleifion. | Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br><br>3.5 Cadw cofnodion | Dylai siart archwiliadau chwe phwynt gael ei gynnal, lle y bo'n briodol, a chofnodi canlyniadau yn nodiadau'r cleifion. | EVG / GR | Mae siartio wedi dechrau ar unwaith |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Eleri V. Griffith BDS

## Swydd: Perchennog y Practis / Prif Ddeintydd

## Dyddiad: 12/4/18